

Gweddian y bydd modd i'r cwmni ddod trwy'r trafferthion er mwyn iddo fedru parhau i gyhoeddi llyfrau ac adnoddau Beiblaidd i blant a phobl ifanc a phobl o bob oed. Gweddian yr un pryd dros bawb sy'n cyhoeddi deunydd Cristnogol gwerthfawr, ac yn arbennig felly o'n safbwynt ni dros bawb sy'n gwneud hynny yng Nghymru ac yn y Gymraeg er mwyn sicrhau mwy a mwy o ddeunydd addas i'n cynorthwyo yn ein cenhadaeth i'r blynyddoedd a ddaw.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Chwefror 12: Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Chwefror 17: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 12: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams. Ni fydd Ysgol Sul.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 12: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Nos Fercher, Chwefror 15: Cyfarfod

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 12

5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

Chwefror 19

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 26

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

'Y Ffordd' yn Festri Carmel am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 19: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Canon Idris Thomas.

CARMEL

Nos Fercher, Chwefror 15: Cyfarfod 'Y Ffordd' am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 17: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 19: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Wyn Wiliam.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Chwefror 13: Cyfarfod Gweddian yn 'Cartref', Caecathro am 10.30 o'r gloch.

Nos Fawrth, Chwefror 28: Cyfarfod Ffarwelio ag Andrew yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Chwefror 19

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams

DIM YSGOL SUL

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Chwefror 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 716: Dydd Sul, 12 Chwefror, 2017

Cael yn ôl

canfod trysor wedi ei guddio mewn cae a'r llall am fasnachwr yn chwilio am berl gwerthfawr cyn dod o hyd iddo. Roedd y ddau wrth eu bodd; y naill am iddo ganfod trysor yn annisgwyl, a'r llall am iddo gael y perl gwerthfawr y bu'n chwilio'n hir amdano.

O gael y rhan fwyaf o'u harian yn ôl, mae'n siwr fod y ddau o Dde Lloegr wedi profi rhywfaint o lawenydd y dynion yn y damhegion. Ond mae'n bosib fod eu llawenydd hwy yn fwy melyn fyth. Oherwydd mi wydden nhw am y boen a'r siom o golli'r arian i ddechrau. Chawson nhw mo'r cyfan yn ôl, ond roedd cael £1,300 yn ôl yn llawer gwell na cholli'r cwbl.

Llawenydd y Cristion yw'r ffaith iddo dderbyn trwy Iesu Grist rywbeth yr oedd wedi ei golli; rhywbeth y daethai i feddlw na fyddai byth yn ei gael yn ôl. Fel hyn y sonia Pantycelyn am y peth:

Yn Eden cofiaf hynny byth,
Bendithion gollais rif y gwllith;
Syrthiodd fy nghoron wiw.
Ond buddugoliaeth Calfari
Enillodd hon yn ôl i mi;
Mi ganaf tra fwyf byw.

Mae'r bendithion a gollodd Pantycelyn (a ninnau) yn cynnwys y berthynas heddychol â Duw a'r hawl i fod yn blant iddo. Do, fe syrthiodd y goron oddi ar fy mhen innau oherwydd fy mhechod. Ond gyda Williams a phob Cristion rwy'n llawenhau am i mi gael y goron yn ôl trwy aberth Crist drosof.

Does dim rhaid i chi ateb y cwestiwn hwn. Ond, ble mae'ch arian chi? Nid unrhyw arian sydd genych yn y banc ond yr arian sydd acw, yn y tŷ. Ydi o'n ddiogel? Ydych chi'n cofio lle mae o? Dan fatras y gwely? Mewn hen dun bisgedi yn y twll dan grisiau? Yn y tebot gorau? Dwi ddim yn disgwyl i chi anfon nodyn ataf i ddeud lle mae eich arian prin. Dim ond gobeithio ydw i eich bod chi'n gwybod lle mae o.

Holi ydw i ar ôl clywed am y drafferth a gafodd gŵr a gwraig o Dde Lloegr yn ddiweddar. Roedden nhw wedi cadw mil a hanner o bunnoedd mewn popty araf. Am wn i od hwnnw crystal lle â dim! Wedi'r cwbl, pa leidr fyddai'n dechrau chwilio am arian mewn *slow cooker*? A chan fod y popty wedi torri doedd yna ddim peryg iddyn nhw wneud lobe sgows na chawl o'r arian.

Ond am fod y popty wedi torri, aed ag o i'r ganolfan ailgylchu. Wnaethon nhw ddim cofio am yr arian nes i'r gŵr benderfynu mynd â'r £1,500 i'r banc ddau ddiwrnod wedyn. Wedi cofio fod yr arian yn y popty, rhuthrodd y ddau ar eu hunion i'r ganolfan ail gylchu. A chwarae teg i weithwyr y ganolfan, roedden nhw'n fodlon tyrchu trwy'r pentyrrau o nwyddau gwastraff er mwyn chwilio am yr arian. Ac er na lwyddwyd i ddod o hyd i'r cyfan, fe gafwyd £1,300 yn ôl.

Sôn am bobl yn darganfod trysorau yn hytrach na'u colli a wnaeth Iesu Grist mewn dwy ddameg, y naill am ddyn yn

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Ond bydd Duw'n gwaredu fy
mywyd ac yn fy nghymryd o
afael Sheol. Paid ag ofni pan
ddaw rhywun yn gyfoethog a phan
gynydda golud ei dŷ, oherwydd ni
chymher dim pam fo'n marw, ac nid â ei
gyfoeth i'w ganlyn. Er iddo yn ei fywyd
ei ystyried ei hun yn ddedwydd, a bod
pobl yn ei ganmol am iddo wneud yn
dda, fe â at genhedlaeth ei hynafiaid, ac
ni wêl oleuni byth mwy' (Salm 49:15-
19).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan y Gweinidog a chynhelir
Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch. Bydd yr
Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan Mr Arwel Williams.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00
o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

'Y Ffordd'

Cynhelir ail gyfarfod 'Y Ffordd' yn festri
Carmel, Llanllechid am 7.00 o'r gloch,
nos Fercher, Chwefror 15.

Ymysg y cwestiynau a awgrymwyd ar
gyfer y cyfarfod nesaf yma mae:

*Ydy beibl.net wedi llwyddo i wneud neges
y Beibl yn fwy dealladwy, a pha werth
sydd bellach i Feibl William Morgan a'r
Beibl Cymraeg Newydd?*

*A allwch chi feddwl am enghreifftiau o
'jargon' crefyddol neu 'Beiblaeg'?*

*Beth sy'n penderfynu eich canllawiau
moesol chi, a pham?*

*Disgrifir y Beibl fel 'y llyfr sy'n traws-
newid bywydau'. Ydy hyn yn wir yn eich
profiad chi?*

*Ydy eich eglwys chi wedi newid er gwell
yn ystod eich cyfnod chi fel aelod ohoni?
Os felly, sut? Os na, pam?*

Mae'n amlwg fod mwy na digon yn y fan
yna i'n cadw'n brysul! Mae croeso cyn-
nes i bawb i ymuno â ni. Fe gawsom
gyfarfod cyntaf da fis yn ôl, ac edrychwn
ymlaen at weld eraill yn ymuno â ni y tro
hwn.

Paratowyd cwrs 'Y Ffordd' gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg, ac mae amryw o
eglwysi a gofalaethau wedi cychwyn ei

ddilyn erbyn hyn.

Cyfarfod Ffarwelio ag Andrew

Noson olaf mis bach, nos Fawrth,
Chwefror 28 bydd Cynllun Efe yn cynnal
Cyfarfod i Ffarwelio ag Andrew Settatre
cyn iddo symud i'w swydd newydd yn
ardal Pwllheli a Phen Llŷn y diwrnod
canlynol.

Cynhelir y cyfarfod yng Nghapel y Rhos,
Llanrug am 7.00 o'r gloch, ac mae croeso
i bawb i ddod yno i ddangos ein gwerth-
fawrogiad i Andrew am yr holl waith
dros yr wyth mlynedd ddiwethaf.

Yr Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth
Arfon yng Nghapel Horeb, Rhostryfan
am 1.30 o'r gloch, ddydd Mawrth,
Chwefror 28.

Yn ystod y cyfarfod byddaf yn cyflwyno
teyrnged i'r ddiweddar Mrs Margaret
Cynfi Griffith ar ran eglwys Cefnywaun.

Bore Coffi Agor y Llyfr

Bydd cyfle i glywed am waith cynllun
'Agor y Llyfr' mewn Bore Coffi sydd
i'w gynnal yn Festri Capel y Rhos,
Llanrug ddydd Mawrth, Chwefror 14
rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch. Bydd
gwybodaeth am waith y cynllun sy'n
trefnu timau o bobl i ymweld ag ysgolion
cynradd i gyflwyno straeon o'r Beibl i'r
plant.

Mae timau lleol yn ymweld ag Ysgol
Gwaun Gynfi ac Ysgol Cwm-y-glo ar
hyn o bryd. Estynnir gwahoddiad cynnes
i chi.

Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri

Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r
gloch, ddydd Mawrth, Chwefror 14 er
budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos
Wener diwethaf yng ngofal Andrew a
Gwenno a Dafydd. Cynhelir cyfarfod
ychwanegol nos Wener nesaf, Chwefror
17. Hwn fydd y CIC olaf i Andrew ei
arwain cyn symud i'w swydd newydd, ac
felly rydym wedi gwahodd rhieni'r bobl
ifanc i ddod atom am ychydig tua diwedd
y cyfarfod, rhwng tua 8.10 o'r gloch.

Gweddio dros y Llew

Nid bob dydd y byddwn ni'n gweddio
dros anifail. Ac nid pob dydd y byddwn
ni'n gweddio dros fusnes masnachol.
Ond gallwn annog ein gilydd i wneud
hynny heddiw o glywed am drafferthion
un Llew arbennig. Nid llew pedair coes,
ond cwmni cyhoeddi Lion Hudson, sydd
oherwydd colledion mawr diweddar wedi
diswyddo'r rhan helaethaf ei staff ac yn
ansicr o'i ddyfodol. Cwmni o Rydychen
yw Lion Hudson, ac ers blynyddoedd
mae bod yn cyhoeddi llyfrau Cristnogol a
Beiblaidd.

Mae llawer o'r llyfrau hynny wedi eu
cyfieithu i'r Gymraeg a'u cyhoeddi yn
bennaf gan Gyhoeddiadau'r Gair. Mae
golwg sydyn heno ar fy silff llyfrau yn
dangos fod y rhain yn cynnwys:

Y Beibl i Blant
Beibl Newydd y Plant
Beibl Graffeg
365 o Weddiâu
Llawlyfr y Beibl
Llyfr mawr o Ffeithiau am Iesu

Mae'r cyfan wedi bod o fudd mawr i
waith ein hysgolion Sul, ac mae'n chwth
clywed y gallai trafferthion presennol y
cwmni olygu bod llai o lyfrau safonol o'r
fath yn cael eu cyhoeddi ar gyfer eglwysi
ac ysgolion a theuluoedd ac unigolion.